Bywgraffiad Cadeirydd Cyngor LLUK, Yr Athro Syr David Melville CBE

Yr Athro Syr David Melville yw Cadeirydd Lifelong Learning UK. Rhwng 2001 a 2007 bu'n Is-Ganghellor Prifysgol Caint. Cyn hynny, bu'n Brif Weithredwr ar y Cyngor Cyllido Addysg Bellach, a chyn hynny'n Is-Ganghellor Prifysgol Middlesex ac yn Is-Gadeirydd Pwyllgor yr Is-Gangellorion a Phrifathrawon (UUK erbyn hyn) a Chadeirydd ei Bwyllgor Strategaeth Tymor Hwy. Dechreuodd ar ei yrfa fel darlithydd ym maes ffiseg ym Mhrifysgol Southampton, lle daeth yn Athro Ffiseg ac yn Bennaeth ar yr Ysgol Ffiseg a Seryddiaeth, ac wedi hynny yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol ac yn Is-Reithor ar Goleg Polytechnig Swydd Gaerhirfryn. Bu'n aelod o nifer o bwyllgorau a phaneli'r Cyngor Ymchwil, Adolygiad Tomlinson o Gwricwlwm a Chymwysterau myfyrwyr 14-19, y Tasglu Gradd Sylfaen ac Adolygiad Foster o Ddyfodol Colegau Addysg Bellach, a chadeiriodd Brosiect Ymgynghori ar Gydraddoldeb Hiliol Prifysgolion y DU.

Bu'n aelod o fwrdd yr Uned Gwasanaethau Gyrfaoedd Addysg Uwch ac yn aelod o'r sefydliadau canlynol: y Cyngor Diwydiant ac Addysg Uwch; Cynulliad Rhanbarthol De-Ddwyrain Lloegr; Pwyllgor Cynghori Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnoleg De-Ddwyrain Lloegr; Bwrdd Partneriaeth Caint a Partneriaeth Dadeni Medway. Bu hefyd yn Gadeirydd yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ac Addysg Uwch De-Ddwyrain Lloegr ac yn Is-Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caint.

Ar hyn o bryd, mae'r Athro Syr David Melville yn aelod o fwrdd y sefydliadau canlynol: Edexcel; The Place; y Sefydliad Gwasanaethau Ariannol; a'r Ymddiriedolaeth Dysgu o Brofiad. Mae hefyd yn aelod o: Grŵp Ymgynghori Cymwysterau a Sgiliau QCA; Partneriaeth Strategol Thames Gateway a Bwrdd Prosiect Addysg Uwch 14-19, ac yn Is-Gadeirydd Academïau Marlowe a Folkestone. Mae hefyd yn Gadeirydd ar Gyngor Dysgu a Sgiliau Caint a Medway, ac ar Gyngor Dyfarniadau Galwedigaethol y Brifsgol.

Fe'i addysgwyd ym Mhrifysgolion Sheffield a Columbia, mae ganddo Raddau Anhrydeddus o Brifysgolion Southampton, Derby, Middlesex a Sheffield a dyfarnwyd CBE iddo yn 2001 a KBE yn 2007 am wasanaethau i addysg bellach ac addysg uwch.